PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 159 Rhif 31/32 Gorff 30/Awst 6, 2026 50c.

## Lansiad yn Eisteddfod y Garreg Las




Dyma un o ddau lansiad i ni yn Eisteddfod y Garreg Las eleni. Dyma benllanw ar wyth mis o recordio yn stiwdio Llyfrau Llafar Cymru yng Nghaerfyrddin, o dan ofal Fabio Lewis a'r Parchg Geraint Morse, sydd yn gynhyrchydd ar y prosiect.

Nod recordiad *Y Beder Ifingyl* yw cyhoeddi ar lafar gampwaith y diweddar Barchg Lyn Lewis Dafis a gyfieithodd yr efengylau i dafodiaith sir Benfro. Gan fod y brifwyl yn y sir eleni, mae'n gyfle gwych i dynnu sylw at y gwaith ac i glywed pobl leol yn darllen yr Ysgrythur yn eu tafodiaith nhw.

Mae'n brosiect ar y cyd â Chyfundeb Sir Benfro, Cymdeithas y Beibl, Cytûn a Llyfrau Llafar Cymru, ac mae nifer fawr o leisiau o'r sir yn cyfrannu, gan gynnwys Ann Morris, Hedd Ladd Lewis, Awen Evans ac Archdderwydd Cymru, Mererid Hopwood.

Bydd y recordiad ar gael ar Ap Beibl, a'r lansiad yn digwydd ym Mhabell y Cymdeithasau 2 am 5.30pm a bydd yn gyfle i goffáu'r awdur, Lyn Lewis Dafis.









## Goleuni mewn tywyllwch

Mae stori Rhian Evans o Gaerfyrddin am sut yr aeth ati i ddygymod â cholli ei golwg yn 32 oed yn un rhyfeddol. A hithau bellach wedi bod yn ddall ers 50 mlynedd, bu Rhian yn adrodd ei hanes yn Sul Sbesial Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin yn Ysgol Griffith Jones San Clêr.



Wrth i'w golwg ddirywio roedd hi'n benderfynol o fyw ei bywyd yn llawn. Dechreuodd wasanaeth 'Papur Llafar' i bobl ddall a rhannol ddall. Gyda chymorth gwirfoddolwyr, aeth ati i ddechrau recordio newyddion y *Carmarthen Journal* yn stiwdio radio ysbyty Glangwili. Ymhen tua thair blynedd sefydlodd gynllun sy'n cael ei adnabod bellach fel Llyfrau Llafar Cymru, gyda channoedd o bobl ar draws Cymru yn derbyn llyfrau llafar bob mis.



### Bendith technoleg

'Mi gollais i fy ngolwg yn araf, a roddodd amser i fi addasu a dysgu ffyrdd newydd o neud pethe. Ac rwy'n hynod o ddiolchgar mai yn yr oes dechnolegol hon y mae hyn wedi digwydd i mi, am fod gwyddoniaeth a thechnoleg wedi bod yn gymorth amhrisiadwy i bobol anabl.' Mae gan Rhian sbectol arbennig iawn o America, sy'n 'gweld' ar ei rhan ac yn siarad â hi yn ei chlust. O roi gorchymyn i'r sbectol, mae'n medru dweud wrth Rhian yn gywir beth sydd o'i blaen hi, boed bwrdd neu ddarllen print. Mae'r sbectol hefyd yn cysylltu gyda'i ffôn symudol, gan ddatgan enw'r sawl sy'n ffonio, neu'n anfon neges destun at rywun.

*parhad ar dudalen 2*

# Goleuni mewn tywyllwch – *parhad*

### Bendith Iesu

'Goleuni mewn tywyllwch' oedd testun anerchiad Rhian i gynulleidfa o tua 100 o bobl yn y Sul Sbesial. Mae hynny'n adlais o Ioan 1:5 'Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.' Mae gan Rhian, sy'n aelod yn Y Priordy, Caerfyrddin, ffydd Gristnogol gadarn. 'Er gwaetha'r tywyllwch mae modd troi'r anabledd ar ei ben a neud rhywbeth positif ohono, a hynny am fy mod i'n credu yn Iesu Grist, a bod Iesu'n nerthu pobol sydd â rhyw anableddau. Yn wir, mae e'n nerthu unrhyw un sy'n gofyn am gymorth ganddo fe,' meddai Rhian. 'Pan yn ifanc fydden i ddim wedi breuddwydio canu'r emyn "efallai mai'r storom fawr ei grym a ddaw â'r pethau gorau im" ond fi'n grediniol bod y storom yna yn fy mywyd i wedi esgor ar rhai o'r bendithion mwyaf pleserus rwy wedi profi erioed.' Dywedodd Rhian ei bod hi wedi defnyddio'i synhwyrau eraill yn well ers mynd yn ddall. Ac mae modd ystyried y pum synnwyr mewn termau ysbrydol meddai.

### Gweld

'Mae Rhys Nicholas yn ei emyn yn dweud "Lle'r oeddwn gynt yn ddall, rwy'n gweld yn awr" ' meddai Rhian. 'Fe y' ni'n canu ar ddechrau'r oedfa yn Y Priordy bob Sul "agor ein llygaid i weld yr Iesu" a dyna beth mae ffydd yn neud; mae'n e'n dangos i ni sut bobol y' ni, pa fath o deimladau sydd gyda ni, beth yw ein hangen ni. Mae Iesu Grist wedi dweud "Myfi yw goleuni'r byd, nid oes neb sy'n fy nilyn i yn rhodio yn y tywyllwch, ond mae ganddo oleuni'r bywyd." 'Dy ni ddim yn gweld bod Duw wrth law i ni, ond yno mae e; dyw e ddim yn gadael ni.'

### Gwrando

'Mae gwrando yn hynod bwysig i fi. Dwy'n nabod pobol yn ôl eu lleisiau, ac mae llawer o bethau yn y tŷ sy'n siarad â fi – Alexa, ffôn symudol, tafol yn yr ystafell ymolchi a'r gegin, a chyfrifiadur sydd yn siarad. Mae'n bwysig hefyd bo ni'n gwrando'n ysbrydol, ac yn gofyn i Dduw i agor ein clustiau er mwyn i ni glywed ei lais. Mae e'n siarad â ni drwy'r Ysgrythur, geiriau'r emynau ac mewn gweddïau. Mae'r proffwyd Eseia yn dweud "Gwrandewch yn astud arnaf, deuwch ataf a chlywch, a byddwch fyw! Ceisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael ef, galwch arno tra fyddo yn agos." ' Dywedodd Rhian ei bod yn arbennig o hoff o'r emyn, sy'n gorffen gyda'r pennill:

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud  
Goleuni'r Byd wyf i,  
Tro arnaf d'olwg, tyr y wawr  
A dydd a fydd i ti.

'Dyna galondid, bod Iesu Grist yn goleuo'r ffordd i ni' meddai.

### Teimlad

Mae hwn yn bwysig, meddai Rhian. Mae'n teimlo pa ddillad i wisgo, yn teimlo'i ffordd o gwmpas y tŷ, ac yn y blaen. Un o'r pethau mwyaf gwerthfawr wnaeth hi oedd dysgu sut i ddarllen Braille, sgil oedd ddim yn rhwydd, gan fod y dotiau bach yn fân iawn. Ond fe wnaeth ddal ati. Digwyddiad mawr yn ei bywyd oedd cyhoeddi'r Testament Newydd a'r Salmau yn Gymraeg mewn Braille. Canmolodd ei gweinidog, y Parchg Beti-Wyn James am fynd ati i godi'r £25,000 oedd ei angen i gyhoeddi'r Ysgrythur yn Gymraeg yn 2010. 'Nawr roeddwn yn gallu teimlo'r geiriau sydd mor werthfawr i fi. Mae'r Beibl hwnnw yn cyfrannu at y goleuni sydd 'na yn fy nhywyllwch i. Gorsedd y teimladau yw'r galon, yn y galon 'y ni'n teimlo euogrwydd ac yn gwybod beth yw maddeuant; yn y galon 'y ni'n teimlo cariad, ac yno y' ni'n teimlo cydymdeimlad, sydd mor bwysig iawn i'r Cristion.'

### Blasu

'Ry' ni'n amal iawn yn dweud bo ni'n cael blas ar rywbeth, fel meddai Rhys Nicholas yn ei emyn "Tydi a roddais i mi flas ar fyw." Y gallu i fynd ymlaen yn hyderus yw'r *blas* yma.'

### Arogli


'Weithiau pan rwy'n cyfarfod â rhywun, rwy'n meddwl: O, mae ganddi bersawr hyfryd! Pan fyddai'n cwrdd â rhywun arall, byddai'n meddwl bod eu personoliaeth yn persawri. Mae gan yr Apostol Paul rhywbeth i'w ddweud ar y testun hwnnw. Mae e'n dweud mai perarogl Crist y' ni, "Aroglau meysydd Duw fydd ar ein gwisgoedd ni." Beth yw'r gwisgoedd hynny? Caredigrwydd, addfwynder, amynedd a llawenydd – dyna'n gwisgoedd ni i fod, a dros y cwbwl gwisgo amdanom ni yr Arglwydd Iesu Grist.'

### Y ffon wen

'Peth arall sydd wedi cyfoethogi fy mywyd i yw'r ffon wen. Ro'dd hi'n anodd ar y dechrau i lyncu fy malchder, am nad o' ni am fod yn wahanol i bobol eraill. Ond ers i fi ddefnyddio hi, mae bywyd wedi bod llawer yn haws. Mae gan y Beibl hefyd rhywbeth i'w ddweud am y ffon. "Dy wialen di a'm ffon a'm cysurant" meddai'r Salmydd. Rwy'n hoff iawn, iawn hefyd o stori Esther. Pan oedd y genedl yn y gaethglud ym Mabilon ac yn cael eu cam-drin yn sobor, fe wnaeth Mordecai ymbil ar y frenhines Esther, oedd yn Iddewes, i fynd at y brenin. Pan welodd y brenin Esther, fe estynnodd deyrnwialen aur ati. Dyna rwy'n credu mae Iesu Grist yn ei wneud, mae e'n estyn y deyrnwialen aur ato ni yn ei ras ac yn ei gariad, gan ddweud – 'Dw i wedi maddau dy holl feiau di ar groes Calfari. O ystyried hyn i gyd, mae'r tywyllwch **yn** troi'n oleuni.'

Diolch i Rhian am anerchiad gwefreiddiol, i blant ysgol Sul Y Priordy am y cyflwyniad, i Dafydd, Anwen a Daniel am gyfeilio mor fywiog, ac i griw Bethlehem Newydd a Gibeon am arlwyo'r dished a'r bisgedi ar ddiwedd yr oedfa. Yn Ysgol Griffith Jones y cynhaliwyd y Sul Sbesial cyntaf erioed yn 2007. Mae'n braf dweud i'r achlysur fod mor sbesial ag erioed unwaith eto eleni.

**Alun Lenny**





*Y band: Dafydd Davies, Anwen Evans-Driver a Daniel O'Callaghan*



*Plant Ysgol Sul y Priordy a fu'n traddodi Dameg yr Heuwr*

# Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol – *Rhan 3*




### Staffio

O ran y strwythur staff yr ydym wedi cychwyn ar gynnal gwerthusiadau staff, ein bwriad yw cynnal y rhain yn lled gyson. Ar hyn o bryd, rydym ni'n gweld bod y strwythur staff presennol yn gweithio'n lled dda. Ga i bwysleisio ein bod yn ymwybodol nad ydym ni am fod yn gweithio y tu hwnt i'n capasiti, ac felly mae tipyn o drafod yn digwydd yn y swyddfa am sut orau i gyflawni pethau gan gadw'n driw i ethos bod yn Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Mae'n debyg y bydd angen i ni gynyddu staff rhyw gymaint, yn enwedig ar yr ochr allbwn digidol, ond mae hynny i ddod eto. Ar hyn o bryd, er mwyn i ni allu gwneud mwy na'r hyn sy'n bosib gyda'r gweithlu presennol, rydyn ni'n defnyddio model o gyflogi gweithwyr llawrydd achlysurol i gyflawni gwaith technegol, ac y mae'r staff yn gweithredu fel cydlynwyr yn yr achos hwn. Yr ydym eisoes wedi cychwyn ar weithio fel hyn er mwyn hwyluso a chyflymu cyflenwi cwrs hyfforddiant ar gyfer darpar weinidogion gyda Carwyn.

Felly, yn sgil y datblygiadau sydd ar droed, byddwn angen edrych ar y strwythur staffio ac edrych i weld am benodiadau ychwanegol er mwyn gallu parhau â'r gwaith mewn modd cynaliadwy ac ymatebol i'r angen. Mae'r cyfan yma'n digwydd mewn cydweithrediad ac o dan arweiniad y Pwyllgor Staffio.

### Yr adeilad

Y mae Tŷ John Penri, yr adeilad, yn dechrau dangos ei ddannedd nawr, bu'r swyddfa yma ers ugain mlynedd heb fawr ddim diweddaru arno. Yn ogystal mae angen edrych eto ar y ffordd yr ydym ni'n gweithredu yn y cyfnod newydd hwn gan edrych hefyd ar y gwagle sydd gennym fel swyddfeydd a mannau gwaith yn y cyfnod digidol. Rhaid i ni gael swyddfa sy'n addas at y pwrpas, os ydyn ni'n disgwyl cyflawni gwaith yn effeithiol. Mae'r elfen bwysig hon o waith y swyddfa yn golygu fod angen i Dŷ John Penri ddatblygu'n ganolfan ddigidol addas at bwrpas y gwaith. Yr ydym ni'n edrych ar fwrw ymlaen gyda chynllun diweddaru dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

### Digido

Y mae'r staff gweinyddol yn edrych ar y drefn weinyddol i weld a oes modd gwella a mireinio'r trefn ac mae pethau'n newid ac esblygu yn y swyddfa yn hynny o beth. Yn ogystal â hyn, mae bwriad gennym i ddigido ffeiliau gweinyddol yr Undeb (a chyrraedd yr unfed ganrif ar hugain) ac rydym ni'n ymchwilio i'r ffordd orau i wneud hyn ar hyn o bryd. Mae angen gallu cael mynediad hygyrch a rhwydd at wybodaeth sydd mewn ffeiliau o ran gwaith gweinyddol, cyfreithiol, ariannol ac yn y blaen, felly byddai creu banc o wybodaeth ddigidol ganolog hawdd cyrchu ato'n allweddol i hyn.

Yn y pendraw, byddai gallu digido llyfrau'r llyfrgell yn adnodd diguro ar gyfer unrhyw un fyddai'n gwneud gwaith ymchwil neu'n ymgeisio am y weinidogaeth hefyd. Dychmygwch gael llyfrgell Tŷ John Penri gyfan ar eich cyfrifiadur.

### Cyfathrebu

Fe wyddom ni oll o'r gorau fod cyfathrebu cyson yn beth hanfodol i bobl deimlo eu bod nhw'n rhan o rywbeth ac yn cael eu cynnwys, felly: cyfathrebu, cyfathrebu, cyfathrebu. Ers dechrau'r flwyddyn, yr ydym wedi bod yn cynhyrchu newyddlen ddigidol sy'n dod at aelodau drwy e-bost. Enw'r newyddlen yw *Rhwydwaith*, am mai 'rhwydwaith dirgel Duw sy'n cydio pob dyn byw' yn ôl Waldo. Ac mi oedd Waldo'n gwybod rhai pethau yndoedd? Mae *Rhwydwaith* ddaw o Dŷ John Penri o dan arweiniad Margaret, yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol a newyddion i eglwysi ac unigolion ar bob math o bynciau, nid yw'n cymryd lle'r *Tyst*, yn hytrach, mae'n cydgerdded ac atgyfnerthu, mae'n gweithredu fel man ar gyfer dderbyn gwybodaeth mwy ffeithiol, ychydig fel *housekeeping*.

# 'Yr Ysbryd Glân' – dim diolch

Pan o'wn i yn fachgen, y Sulgwyn oedd enw'r achlysur. I fi, y peth pwysicaf oedd te Sulgwyn gyda brechdanau taclus, trionglog a heb grwstyn ac yna jeli a blomonj. Weithiau byddai gorymdaith ar strydoedd yr ardal a chwaraeon yn y parc lleol.

O dipyn i beth daeth gair newydd, Pentecost, ond fawr o sylw a roed i hwnnw yn Saron, Gendros na'r Tabernacl, Sgiwen na Minny Street, Caerdydd nac Ebenezer, Wrecsam. Gadawyd argraff bod y 'Pentecostals' braidd yn od o ran crefydd.

Erbyn cyrraedd canol oed des yn fwy effro i derm cyfarwydd iawn i'm clyw ond dirgel iawn i'm deall, 'Yr Ysbryd Glân'. Roeddwn yn cofio clywed 'Ysbryd yw Duw' (Ioan 4:24) a chyfeiriadau tebyg yn arwyddo cymeriad Duw yn Iesu. Ond beth oedd yn fy mhoeni oedd bod dehonglwyr y Sulgwyn dros y canrifoedd, hyd heddiw, yn awgrymu bod y disgrifiad yn Actau 2 yn cyhoeddi dyfod ysbryd *newydd*. Ond roedd fy nghof yn fy anfon at Genesis 1:2 a darllen am '… ysbryd Duw yn ymsymud …' Felly mae Duw wedi bod yma o'r dechrau un. Os oes achos i fod yn falch dros ddigwyddiadau'r Sulgwyn yr achos yw sylweddoliad y disgyblion bod Duw yn dal yn agos. I fi, ymyrraeth diangen, camarweiniol, ailadroddus yw creu term newydd, 'Yr Ysbryd Glân'. Mae 'Duw' yn dweud y cyfan. Bodloner. Yn ei natur hanfodol y mae Duw yn ysbryd glân/sanctaidd.

Yn sicr felly, dileër 'Yr', sy'n arwyddo dieithrwch a rhodder 'Ei' neu 'Dy' sy'n arwyddo perthynas gynhaliol. Cywirer pob emyn yn *Caneuon Ffydd*.

**Neville Evans**
Bethel, Penarth



Yr Adran
Gydenwadol

30 Gorffennaf 2026
Rhifyn 283 | 284

I ddarllen y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn cliciwch isod:
www.cennad.cymru

# Tystiolaeth yr Eglwysi yn Eisteddfod Llangollen

## gan Delyth Wyn Davies, trefnydd digwyddiadau tystiolaeth Cytûn

"79 mlynedd o Hyrwyddo Cytgord a Chymod Rhyngwladol trwy Gerddoriaeth a Dawns" – dyna'r geiriau sy'n tynnu'r sylw ar wefan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen https://international-eisteddfod.co.uk/cy/.

Sefydlwyd yr eisteddfod yn 1947 fel ymgais i hyrwyddo heddwch a chymod yn dilyn yr Ail Ryfel Byd, ar adeg pan oedd sgileffeithiau'r rhyfel yn fyw yn y cof a'r dognau rhyfel yn parhau. Erbyn hyn, mae Eisteddfod Llangollen wedi ennill ei lle ymysg digwyddiadau diwylliannol mwyaf ysbrydoledig y byd. Mae dros 400,000 o gystadleuwyr o dros 140 o genhedloedd wedi cael y cyfle i berfformio ar lwyfan Llangollen.

Eleni cafodd staff Cytûn y cyfle i fod yn rhan o'r arlwy ar faes yr ŵyl wrth i ni ymuno ag aelodau Cytûn Llangollen i ddarparu presenoldeb yr eglwysi mewn Pabell Heddwch. Gweledigaeth y Parch. Ruth Gee, gweinidog Eglwys Fethodistaidd Llangollen, oedd cynnull Cristnogion lleol i estyn allan at ymwelwyr i'r Eisteddfod, gan hyrwyddo amcanion ac ethos yr Eisteddfod â naws Gristnogol. Neilltuwyd ardal ar faes yr ŵyl i gynnwys pabell fechan groesawgar gyda gweithgareddau'n hyrwyddo ac yn ennyn sgyrsiau am heddwch. Gwahoddwyd pobl o bob oed i ystyried a thrafod beth yw eu syniad o heddwch, i ysgrifennu gweddïau a lliwio colomennod a symbolau heddwch eraill. Cafwyd amser bendithiol wrth i ni sgwrsio â phobl o bob oed a dysgu oddi wrthynt. Bu pobl yn rhannu eu ffydd gyda ni ac roedd yn hyfryd gweld criwiau o blant yn derbyn y gwahoddiad i weddïo a gweithredu dros heddwch.

Agorwyd Diwrnod y Plant yn yr Eisteddfod eleni gyda chyngerdd byr yn y pafiliwn yn cynnwys perfformiadau gan ddawnswyr Indiaidd lleol a band pres Bollywood. Ond i mi, yr uchafbwynt oedd y neges o heddwch ac ewyllys da a gyflwynwyd gan Ysgol Pen Barras, Rhuthun, gan ddilyn y traddodiad a gychwynnwyd yn 1949 o rannu neges heddwch o lwyfan yr Eisteddfod. Thema'r cyflwyniad eleni oedd pwysigrwydd parchu ieithoedd lleiafrifol, ac fe lwyddodd y disgyblion i greu cyflwyniad graenus ac urddasol gyda neges glir o barch at eraill.

Yn dilyn hyn, cafwyd diwrnod llawn o gystadlu gyda chorau plant ac ieuenctid o Gymru, Lloegr ac o dros y byd, gan gynnwys côr o blant ifanc o Wcráin a gafodd groeso brwd gan y gynulleidfa. Yr hyn oedd yn amlwg drwy gydol y dydd oedd yr ysbryd o gydlawenhau a dathlu ein gilydd. Da oedd cael bod yno yn enw Cytûn.

O gofio bod yna nifer o wyliau lleol yn cael eu cynnal ar hyd a lled Cymru, tybed oes yna her i eglwysi ystyried oes 'na gyfleoedd cenhadol y gellid manteisio arnynt? Bydd sawl sioe amaethyddol, gŵyl gerddorol, yn ogystal â gwyliau bwyd, yn cael eu trefnu ar hyd a lled Cymru. Beth am ystyried mynychu yn enw'r eglwysi lleol? Byddai Cytûn yn hapus iawn i gynghori a chefnogi.



*Plant Ysgol Pen Barras, Rhuthun, yn arwain y gwasanaeth heddwch ar brif lwyfan yr Eisteddfod*



*Côr plant o Wcráin yn cystadlu ar lwyfan yr ŵyl*




*Y Parchg Ruth Gee (chwith), cydlynydd gwaith yr eglwysi, gyda thri o wirfoddolwyr lleol yn y babell*

*Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg*

# Croeso Eisteddfod y Garreg Las

**Ymhen ychydig ddyddiau, ar 1 Awst, bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn agor ei maes ar gyrion tref Aberteifi i'r cyhoedd ar gyfer wythnos o gystadlu brwd ac yn rhoi chyfle inni fwynhau a gwerthfawrogi doniau amlycaf Cymru. Mae trigolion ardal y Garreg Las wedi bod yn brysur ers dros ddwy flynedd yn paratoi i'n croesawu, gyda llawer o gynllunio manwl wedi digwydd. Felly, bydd gwledd o gystadlu a rhaglen lawn o berfformiadau ar ein cyfer.**

**Bydd tystiolaeth yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, ac yma mae Aled Davies yn crynhoi'r hyn fydd yn digwydd dros gyfnod yr Eisteddfod, 1–8 Awst eleni.**

### Croeso Pabell yr Eglwysi

Pabell tystiolaeth eglwysi'r ardal yw hon wrth gwrs, dan nawdd Cytûn, gan mai tystiolaeth Gristnogol yr eglwysi lleol sy'n cyfri. Bydd dros 150 o wirfoddolwyr o blith yr eglwysi lleol yn rhan o'r ymdrech i groesawu pobl i mewn i'r stondin, yn gweini paneidiau ac yn cynnal gweithgarwch dyddiol i blant.

Fe fydd y stondin ar agor rhwng 9.00 y bore a 6.00 yr hwyr dros gyfnod o wyth niwrnod i groesawu a chynnig lletygarwch – cadair i orffwys a chyfle am sgwrs ddifyr, paned o de neu goffi (neu ddiod oren), heb anghofio'r Welsh cêcs cwbl hanfodol. Fel arfer, bydd pum mil ohonyn nhw'n cael eu bwyta o fewn y stondin mewn wythnos. Mae'n fraint bob blwyddyn cael croesawu pawb atom, yn bobl o bob ffydd neu heb ffydd – yr un fydd y croeso i bawb. Rydyn ni'n barod i'ch croesawu am sgwrs a phaned; bydd yna gyfle i brynu llyfr neu ddau – a rhaglen lawn o weithgareddau i bob oed. Ymhlith y pigion eleni byddwn yn cynnig y canlynol:

### Gwaith plant

Ar gyfer y plant, fe fydd ardal yn llawn gweithgareddau: cyfle i adeiladu model allan o Lego, â gwobr ddyddiol o Feibl lliw i'r sawl fydd yn creu'r model gorau. Bydd cyfle i wneud gwaith crefft, chwarae gemau fel Jenga, Knex, Connect 4 a model o arch Noa. I'r rhai sy'n hoffi gwneud pethau mwy creadigol, bydd cyfle i wneud breichled, a pheintio ffenestr liw, yn ogystal â gweithgareddau dyngarol dan ofal Cymorth Cristnogol.

### Yr enwadau a'r mudiadau

Mae'r babell yn cynrychioli'r holl enwadau dan ymbarél Cytûn, yn ogystal â mudiadau fel Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, A Rocha a Chyngor yr Ysgolion Sul. Bydd y rhain yno i gyfarfod pobl er mwyn rhannu gwybodaeth am eu mentrau a'u cenadaethau diweddaraf. Bydd cynrychiolwyr o'r enwadau'n galw i mewn, yn Ysgrifenyddion Cyffredinol, Llywyddion a gwirfoddolwyr o'r eglwysi lleol, yn barod am sgwrs dros baned.

Bydd Cymorth Cristnogol yno i rannu am sawl project yn ymwneud â gofalu am y greadigaeth ac effeithiau niweidiol newid hinsawdd, a lleddfu tlodi byd-eang, yn enwedig gyda'u hapêl ddiweddaraf yn dilyn daeargryn Venezuela. Bydd Sian Wyn Rees o Gymdeithas y Beibl yno i sôn am gynlluniau diweddaraf y Gymdeithas.

Amcan Cyngor yr Ysgolion Sul yn ystod yr wythnos fydd cynnal sgyrsiau efo arweinwyr lleol dros Gymru er mwyn trafod gwaith cenhadol i blant, ac annog sefydlu gweithgarwch newydd lle mae ysgolion Sul wedi darfod erbyn hyn. Yn ôl yr arfer, bydd dewis eang o lyfrau ac adnoddau, heb anghofio'r cardiau Nadolig newydd, ar werth gydol yr wythnos.

### Addoliad

Bydd cyfle hefyd i addoli yn ystod yr wythnos. Bob bore (heblaw dydd Sul) cynhelir oedfa yn y babell am 11 o'r gloch. Bydd yr oedfaon hyn yng ngofal arweinwyr ac eglwysi o ardaloedd penodol o fewn dalgylch yr Eisteddfod. Yn ogystal eleni, ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, bydd gennym wasanaeth cymun cryno ar y stondin am 12 o'r gloch.

Dydd Sul, 2 Awst, cynhelir yr oedfa ym Mhafiliwn y Steddfod, a hynny am 9.30 y bore o dan arweiniad yr eglwysi lleol. Noder y bydd angen tocyn mynediad i'r maes arnoch, a bydd hynny'n caniatáu i chi ddod i'r pafiliwn ar gyfer yr oedfa ac aros ar y maes tan 10.30 y noson honno, os dymunwch. Cofiwch hefyd am y Gymanfa Ganu yn y pafiliwn y noson honno am 7.30 o'r gloch. Bydd angen tocyn arall ar gyfer cael mynediad i'r Gymanfa, a fydd yn gyfle i glywed Côr y Gymanfa'n perfformio.

Yn ystod yr wythnos cawn hefyd ambell ddatganiad emynyddol ar y piano gan Meilyr Tomos, sy'n byw nid nepell o faes yr Eisteddfod. Bydd Meilyr hefyd yn gwerthu ei CD o emynau, gyda'r elw yn mynd at waith Cymorth Cristnogol.



## Amserlen yr wythnos

Dyma amserlen yr wythnos o'r hyn rydym yn ymwybodol ohono wrth baratoi'r erthygl hon:

**Dydd Sadwrn, 1 Awst**

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

11.30 Pabell y Cymdeithasau 1: Mererid Hopwood ac eraill yn cyflwyno hanes 'Waldo: Bardd Dewrder / Bardd Tynerwch'

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

**Dydd Sul, 2 Awst**

9.30 Pafiliwn: Oedfa'r Eisteddfod dan arweiniad yr eglwysi lleol

1.30 Pabell y Cymdeithasau 2: Trafodaeth ar 'Y Tangnefeddwyr Heddiw', dan nawdd Crynwyr Cymru

2.00 Pabell y Cymdeithasau 2: 'O am aros yn ei gariad'– cofio 250 mlwyddiant geni Ann Griffiths, gydag E. Wyn James

3.00 Pabell y Cymdeithasau 1: 'Camu Ymlaen': tair enghraifft o eglwysi lleol yn camu ymlaen yn ddychmygus – sesiwn dan ofal Cristnogaeth21

7.30 Pafiliwn: Y Gymanfa Ganu (bydd angen tocyn ar gyfer hon)

**Dydd Llun, 3 Awst**

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

1.30 Pabell y Cymdeithasau 2: Trafodaeth ar 'Y Tangnefeddwyr Heddiw', dan nawdd Crynwyr Cymru

3.00 Pabell Cytûn: Lansio albwm o ganeuon Cristnogol newydd: 'Goleuni' – Prosiect Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Dydd Mawrth, 4 Awst**

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

2.00 Pabell Prifysgol Aberystwyth: Dathlu cyfraniad *Y Traethodydd*

3.30 Pabell Cytûn: John Tudno Williams yn cyflwyno'r gyfrol *Cydymaith i'r Testament Newydd*

**Dydd Mercher, 5 Awst**

10.30 Pabell y Cymdeithasau 2: 'Cofio Cerddor Trewen': darlith ar hanes y cerddor D. Emlyn Evans gan Delyth Morgans Phillips

11.00 Pabell y Cymdeithasau 1: Sesiwn yng ngofal Capeli Cymru: Gwarchod Treftadaeth Anghydffurfiol Cymru

11.00 Pabell y Cymdeithasau 2: 'Gwaddol Gwenallt' – sesiwn dan nawdd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn trafod gwaith y bardd Gwenallt

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

5.30 Pabell y Cymdeithasau 2: Sesiwn dan ofal papur bro *Y Cardi Bach* yn coffáu Euros Wyn Jones, gyda Rhoswen Llywelyn a John Arfon Jones

**Dydd Iau, 6 Awst**

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

1.00 Pabell y Cymdeithasau 1: Pererindod Heddwch Merched Cymru, dan nawdd Academi Heddwch Cymru

5.30 Pabell y Cymdeithasau 2: Cyfarfod arbennig i lansio fersiwn sain o'r 'Beder Ifengyl' yn nhafodiaith sir Benfro, ac i goffáu'r awdur, Lyn Lewis Dafis

**Dydd Gwener, 7 Awst**

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

4.00 Pabell y Cymdeithasau 1: Sgwrs gan yr Esgob Wyn Evans ar yr Arglwydd Rhys ac Eglwys Gadeiriol Tyddewi

**Dydd Sadwrn, 8 Awst**

11.00 Pabell Cytûn: Oedfa fer dan arweiniad yr eglwysi lleol

12.00 Pabell Cytûn: Oedfa gymun ar wahoddiad Esgobaeth Tyddewi, gyda chroeso i bawb

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i mewn i'r babell.

*Aled a Delyth Wyn Davies*
*Trefnyddion digwyddiadau Cytûn*






## Arolwg Eco Eglwys yn y Gymraeg

Mae'n bleser cyhoeddi y gall eglwysi nawr gwblhau arolwg Eco Church/ Eco Eglwys ar-lein yn y Gymraeg. Bellach, gyda dros 630 o gapeli ac eglwysi o Gymru wedi cofrestru gyda'r cynllun (ar draws yr enwadau) a bron i 100 o wobrau arian a 9 gwobr aur wed'u dyfarnu, mae pethau'n edrych yn addawol iawn! Rydym wedi bod yn gweithio i gyflawni'r prosiect swmpus yma am beth amser, gan mai'r arolwg yma sydd wrth wraidd yr holl gynllun. Mae ei gael yn Gymraeg felly'n destun balchder mawr i ni. Dyma'r unig iaith y mae arolwg Eco Eglwys ar gael ynddi (yn swyddogol!) ar wahân i Saesneg. Rydym wedi cyrraedd y nod hwn yn ystod ein degfed blwyddyn eleni!

Yn syml, rhaglen ymarferol ar lein yw Eco Church/ Eco Eglwys i dywys eglwysi ar y daith i gymryd camau i fod yn fwy gofalgar ac ystyrlon o ran yr amgylchedd a gofalu am y cread. Mae pum adran i'r cynllun: Addoli ac Addysgu; Adeiladau ac Ynni; Tir a byd natur; Ymgysylltiad cymunedol a byd eang; a Ffordd o fyw.

Mae yna lu o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg wedi bod ar gael ers blynyddoedd, ac ers tua deunaw mis mae dwy ddogfen esboniadol wedi bod ar gael hefyd: un yn rhoi cipolwg ar gynllun Eco Eglwys ac un arall yn rhoi syniadau sut i ddechrau Eco Eglwys, ynghyd â dogfennau 'trosolwg' i bob un o'r pum adran.

Felly, ewch draw i gael golwg, ac ar ôl i chi gofrestru ac ymuno â'ch eglwys, ar ddechrau'r arolwg dewiswch yr opsiwn Cymraeg: https://ecochurch.arocha.org.uk/.

*Delyth Higgins, Swyddog Eco Eglwysi Cymru, A Rocha*

# Rhodiwch mewn Cariad:

## *Cyfarfodydd Blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru, Caerdydd*

Eleni, capel y Tabernacl, yr Ais, Caerdydd, oedd yn gwahodd Bedyddwyr Cymru atynt i gynnal cyfarfodydd blynyddol yr Undeb, a hynny wrth drosglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parchg Ddr Rosa Hunt, yn dilyn blwyddyn lwyddiannus dan arweiniad y Parchg Rob Nicholls. Dyma bumed ymweliad yr Undeb â'r Tabernacl yn ystod y ganrif hon, gan ddiolch yn yr un modd am gyfnodau llywyddol y Parchg Denzil John, Mr Gwenallt Rees, y Parchg Peter Dewi Richards a Mr Bill Davies.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd blynyddol eleni dros gyfnod o ddau ddiwrnod, ar ddydd Iau a Gwener, 18–19 Mehefin. Dilynwyd hyn gan bererindod heddwch o gwmpas Caerdydd ar y dydd Sadwrn, gan ymweld â'r Deml Heddwch, ac yna oedfa unedig i eglwysi Caerdydd ar y bore Sul, dan arweiniad y Parchg Owain Llŷr Evans.

Fe'n croesawyd i'r Tabernacl ar y bore Iau gan Rhys ap Owen a Rosa Hunt, cyn i Eirian Dafydd ein harwain mewn defosiwn agoriadol hyfryd.

Dechreuwyd ar waith y gynhadledd yn yr eisteddiad cyntaf, gan dderbyn cofnodion ac adroddiadau 2025. Diolch i Rob Nicholls am ei lywyddu doeth ac urddasol. Cafwyd cyflwyniadau gan Simeon Baker, Christian Williams a Glyndwr Prideaux, a gyflwynodd adroddiadau'r Cyngor, y Gorfforaeth a'r cyfrifon. Gan edrych tua'r dyfodol, daeth Aled Davies ymlaen i gyflwyno



*Oedfa'r Weinidogaeth o dan arweiniad Rhys Llwyd a Hannah Smethurst*



*Oedfa'r Llywydd o dan arweiniad Rosa Hunt, y Llywydd newydd*



*Cyfeillion Blaen-y-cwm yn arwain defosiwn o dan ofal Geraint Davies*



*Ed Kaneen, Rosa Hunt a Densil Morgan gyda rhai o gyn-fyfyrwyr Coleg Caerdydd*

enw ar gyfer yr Is-lywyddiaeth, a hyfrydwch oedd croesawu'r Parchg Casi Jones, eglwys Emaus, Bangor, i'r rôl honno.

Aed ymlaen yn yr ail eisteddiad i gyflwyno holl gadeiryddion y gwahanol bwyllgorau, a hynny drwy sesiwn holi ac ateb. Yn cael eu holi gan Simeon Baker yr oedd Glyndwr Prideaux, cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Iwan Davies a Christian Williams ar ran y Gorfforaeth; Bill Davies, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr; Marc Owen, Cadeirydd Bwrdd y Weinidogaeth; a Carwyn Greaves, cydlynydd Bwrdd y Genhadaeth.

Wedi cinio yn y festri cafwyd cyflwyniad gan Fwrdd y Genhadaeth, yn cael ei lywio gan Carwyn a Sioned Greaves, a chyfle i holi Hannah Smethurst o Gaersalem, Caernarfon; Pedr ap Llwyd, Penuel, Caerfyrddin; a Sian Jones, Scripture Union Cymru.

Croesawyd ein cyfeillion eciwmenaidd atom, yn eu plith Owain Llŷr Evans, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; Cynan Llwyd, Cytûn; Ian Morris, yr Eglwys Fethodistaidd; Dyfrig Lloyd, yr Eglwys yng Nghymru; ac Ed Caneen, Cymanfa Bedyddwyr De Cymru.

Oedfa'r Weinidogaeth oedd yn cloi arlwy'r diwrnod cyntaf, gydag oedfa fendithiol iawn dan arweiniad Hannah Smethurst a Rhys Llwyd, y ddau ohonynt yn gyd-weinidogion ar eglwys Caersalem, Caernarfon. Cafwyd cyfle yn ystod yr oedfa i goffáu gweinidogion a fu farw, ac i groesawu a chyflwyno gweinidogion newydd i'n plith.

Cyfeillion eglwys Blaen-y-cwm, dan ofal Geraint Davies, fu'n arwain y defosiwn boreol ddydd Gwener, cyn trosglwyddo ar gyfer sesiwn Mudiad y Chwiorydd. Cafwyd cyflwyniadau gan Sian Elin Thomas a Gret Evans, cyn cael sesiwn hynod ddiddorol gan Sian Meinir yn sôn am ei gwaith yn paratoi myfyrdodau wythnosol yn *Cenn@d* yn seiliedig ar y gyfrol *Codi'r Llen*.

Yn dilyn y sesiwn hwn, cafwyd cyfle i fynd ar wibdaith i gyfeiriad Coleg y Bedyddwyr, a chael taith dywys gan Ed Kaneen a rhai o'r myfyrwyr. Yno, cafwyd agoriad swyddogol llyfrgell newydd, sef gwaddol y llyfrau a drosglwyddwyd o'r Coleg Gwyn ym Mangor. Braf oedd cael cwmni Ruth Davies i dorri'r rhuban coch i agor y llyfrgell a enwyd ar ôl ei thad, yr hanesydd T. M. Bassett. Cafwyd anerchiad gan Densil Morgan, cyn dadorchuddio portread o Rosa Hunt ac Ed Kaneen i gofio'r cyfnod pan oeddent yn gyd-benaethiaid.

Wedi cyrraedd yn ôl i'r Tabernacl cyflwynwyd darlith goffa Lewis Valentine, sef ein darlith heddwch flynyddol, gan Siân Rhiannon, a chafwyd anerchiad meistrolgar ganddi ar rôl merched yn ymgyrch heddwch ein gwlad.

Dilynwyd hyn gan sesiwn Llwybrau Newydd dan arweiniad Rosa Hunt, a chafwyd cyfle i holi cyfeillion Salem, Ton-teg, am eu gwaith arloesi, gan dderbyn sylwadau o lawr y gynhadledd. Daeth y gynhadledd i ben gydag oedfa'r Llywydd, gyda Rosa'n arwyddo Beibl y Llywydd, cyn cyflwyno anerchiad heriol a grymus.

Diolch am ddeuddydd cofiadwy a bendithiol, a dymunwn fendith Duw ar Rosa dros y flwyddyn nesaf. Cofiwn amdani yn ein gweddïau, wrth iddi ein harwain fel Undeb ymlaen i'r dyfodol.

*Aled Davies*



*Rosa yn arwyddo'r Beibl ym mhresenoldeb Simeon Baker*




*Cyflwyniad Mudiad y Chwiorydd*



*Cyflwyniad Bwrdd y Genhadaeth*




*Darlith Heddwch o dan arweiniad Siân Rhiannon*

# Menter Chwildro

Aeth pum mis heibio ers sefydlu Menter Gymunedol Chwildro gan estyn allan i'r gymuned yn Chwilog a'r ardal ehangach. Y nod yw trefnu a chefnogi gweithgarwch cymunedol a cheisio cwrdd ag anghenion penodol o fewn ein cymuned. Mae hi wedi bod yn gyfnod prysur gydag amrywiaeth eang o ddigwyddiadau i wahanol grwpiau gyda'r gefnogaeth yn cynyddu wrth i fwy o bobl ddod i wybod am y fenter a'i gweithgareddau.

Sefydlwyd patrwm o ddigwyddiadau misol, megis Ffrindiau Bach i blant ifanc a'u teuluoedd, Cylch Cwmni ar gyfer y rhai sy'n dymuno dod at ei gilydd am banad a sgwrs a Sesiwn Sgwrsio i bobl sy'n dysgu Cymraeg. Gan nad yw pawb yn gallu mynychu yn ystod y dydd penderfynwyd cynnig Sesiwn Sgwrsio gyda'r nos hefyd. Hyd yma mae deg o bobl wedi mynychu'r sesiynau i ymarfer siarad Cymraeg ac mae saith o bobl yn gwirfoddoli i siarad gyda nhw.

Un o'r pethau sydd wedi dod i'r amlwg yw bod y gweithgareddau'n cynnig cyfle i ddod i adnabod pobl eraill yn ein cymdogaeth. Wrth siarad gydag un o'r dysgwyr daethom i ddeall ein bod ni'n dwy wedi symud i Chwilog yn yr un flwyddyn ac mae hi wedi cymryd chwe blynedd ar hugain i ni gyfarfod ein gilydd! Mae'n gyfle hefyd i gyfarfod pobl sydd wedi symud i fyw yma yn fwy diweddar a gobeithio bod hyn yn helpu ymgartrefu yn ein plith.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau eraill yn ystod y cyfnod cyntaf hwn, megis dwy sesiwn adolygu Mathemateg TGAU, cyflwyniad ar waith Ambiwlans Awyr Cymru, sesiwn teclynnau digidol, sesiwn ar baratoi salads, bore coffi elusennol, Chwynnu Chwilog, bwrdd dillad ysgol a sesiwn ar hel achau. Diolch i bawb sydd wedi arwain y sesiynau.

Mae nifer o syniadau ar y gweill ar gyfer y tymor nesaf a rhestrir hwy ar dudalen Facebook Menter Gymunedol Chwildro. Am ragor o fanylion, cysylltwch â Delyth ar delythwyndavies@hotmail.co.uk neu 07785 595768



*Pawb yn mwynhau eu salads yn y neuadd*



*Gweithdy mathemateg ar gyfer criw TGAU*



*Marian, Delyth ac Edwina yn Chwynnu Chwilog o flaen yr ysgol*



*Bore Coffi er budd Ambiwlans Awyr Cymru, lle codwyd dros £250*



*Cyfle i sgwrsio a chymdeithasu gyda chriw o ddysgwyr*



*Glyn a Meinir yn cynnig cefnogaeth ar declynnau digidol*

# WRTH Y LLYW #18

Nos Lun, 6 Gorffennaf daeth cyfle i mi ymweld â Chyfundeb Llŷn ac Eifionydd yn Soar, Nefyn, Diolch i ffyddloniaid yr eglwys honno am wledd o groeso i mi a phobl dda'r Cyfundeb. Diolch i'r swyddogion am drefnu a chynnal y cyfan â'r fath raen. Dinas hynafol oedd Soar y Beibl, a gofir fel man lloches i Lot a'i ferched (Genesis 14:2). Man lloches; lle diogel – difyr a phwrpasol felly fod un o swyddogion y Panel Diogelu Cydenwadol, Elen Vaughan Jones hefyd y noson honno'n cael cyfle hefyd i annerch y gynulleidfa ynghylch arferion diogelu yng nghyswllt plant a phobl ifanc – ond yn benodol yn unol ag arbenigedd Elen – oedolion bregus. Cafwyd cyflwyniad cymen ganddi, yn union at y pwrpas. Tafliad carreg o gapel Soar, mae enghraifft brin o dŵr gwylio ar yr arfordir, sydd o bosibl yn gysylltiedig â diwydiant pysgota penwaig Nefyn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Manteisiais ar y cyfle, ar ôl y cyfarfod, i ddringo'r tŵr. Cwrdd Chwarter a Thŵr Nefyn: lledu gorwelion crefydd yw'r gamp. Cawsom y Beibl yn rhodd, a'r datguddiad o Dduw yng Nghrist yn brofiad ac mi deimlais y nos Lun braf honno o haf, ein bod – Annibynwyr – yn gweld a deall nad codi wal uchel o'n cwmpas mo crefydd a chrefydda, ond codi tŵr i gael golwg ehangach ar bethau Duw yn ein bro, gwlad a byd.




Nos Fawrth, 7 Gorffennaf, oedfa yn y Tabernacl, Dolgellau. Yma hefyd, croeso cynnes, gwrandawiad caredig, cefnogaeth frwd. Adeilad cadarn, urddasol – hardd iawn – yw Tabernacl yr Annibynwyr yn Nolgellau. Ond ystyr *Tabernacl* yw 'pabell'. Peth dros-dro yn unig, heb ddefnydd para ynddo yw pabell. Mae gosod yr enw *Tabernacl* – Pabell – ar adeilad yn warant na fydd i'r cysegr gymryd lle Duw yng Nghrist yn ein serch a'n gwasanaeth. Cyfrwng dros dro, rhywbeth at bwrpas yw pob adeilad sydd gennym fel Undeb o Eglwysi. I'w ddefnyddio fel bo'r galw. Synhwyraf wrth deithio fel Llywydd ein bod yn gweld a deall fwyfwy gymaint yn rhagorach yw crefydd Ffordd na Chrefydd Tŷ. Onid yw Gofalaeth Eglwysi Annibynwyr Dolgellau, Dinas Mawddwy a Llanelltyd wedi prynu bws mini i gludo'r ffyddloniaid, nid yn unig yn ôl a blaen i'r capel ond i sioe a digwyddiad lleol, ar daith a phererindod? Tafliad carreg o'r Tabernacl mae Love Lane. Nid digon i bobl Iesu yw bod yn bobl y Tŷ. Ein braint yw bod yn bobl y Ffordd; pobl *Love Lane* ydym. Heb gariad yn olew, fe saif peiriant yr eglwys. Yr enw Cymraeg ar Love Lane, Dolgellau yw Tylau Mair. 'Yn ymyl croes Iesu oedd ei fam.' (Ioan 19:25). Dringwn Tylau Mair i sefyll gyda hi – sefyll fel hithau – *yn ymyl* ein Harglwydd byw a bendigedig mewn gwaith a gweddi.

Prynhawn Mercher 8 Gorffennaf, bu cyfle i ymweld â Chwrdd Chwarter Cyfundeb Penfro. Gyda'r cyfle, daeth croeso mawr a chynnes yng Nghaffi Beca, yr Efailwen. Cynhaliwyd y cwrdd yn sŵn a phrysurdeb y caffi. Clywyd sŵn emyn ymhlyg â sŵn cyllell a fforc; adnod, cwpan a soser; gweddi, cwmni a chlonc. Diolch i bawb a fu ynglŷn â'r trefnu – y swyddogion a phobl dda Antioch a Pen-y-groes. Wrth ymadael â Chwrdd Chwarter Penfro, cofiais y stori am y ddau ddiacon noson y ffair leol, yn mynd i'r cwrdd gweddi – y naill yn mynd heibio i'r ffair yn ochelgar, a'r llall yn mynd drwyddi yn llawen. Nid mynd heibio ochr 'ffair y byd' yw'r gamp i ninnau, ond mynd trwyddi heb iddi ein trechu, yn llawen ein ffydd, yn canu cân ein gobaith ar alaw cariad. Rhag blaen, llongyfarchwn bawb o'n pobl sydd wrthi'n ddygn a dyfal i sicrhau llwyddiant i, ac oherwydd Eisteddfod y Garreg Las.

Prynhawn Sadwrn 11 Gorffennaf: Ny Ako: cantorion a dawnswyr o Fadagascar yn cynnal cyngerdd yng Nghapel y Nant, Clydach. Awgrymodd yr hwn oedd yn cyflwyno'r amrywiol eitemau lliwgar a llon fod ynys Madagascar yn edrych yn debyg i ôl troed chwith person. Yn ôl yr hen goel, pan sangodd Duw gyntaf oll ar y ddaear las gron, Madagascar yw ôl ei gam. Nid oes gan bobl fawr o ddiddordeb yn y Duw sydd uwchlaw a thu faes i fyd ein profiad. Hawdd ganddynt fyw hebddo. Peth arall yw Duw yma – gyda ni – yn y fan lle'r ydym, yn rhan o'n byw yn hyn o fyd ac ar waith ynddo. Maddeued dyfynnu Bedyddiwr i orffen, gan fod y Parchg James Morris Lewis (1893–1968), capel Noddfa, Treorci yn iawn i ddweud: 'Nid digon inni yw Duw a'i ben yn y cymylau, os nad yw ei draed yma gyda ni yn y mwd.'

**Owain Llŷr Evans**


## CYMANFA BREGETHU GYD-ENWADOL RHOSHIRWAUN

**NOS IAU, AWST 20fed, 2026**
**AM 6.30 O'R GLOCH**

**YN NEUADD RHOSHIRWAUN**

**PREGETHIR GAN**

**Y PARCHEDIG**
**Ddr ALUN MORTON THOMAS**

**Y PARCHEDIG GLYN WISE**

**Dewch yn llu a chroeso cynnes i bawb.**


# Gair gan Aled Llangollen

Eisteddfod Gydwladol Llangollen oedd enw gwreiddiol Gŵyl Llangollen, yn awgrymu gwledydd ar y cyd, heb ddim yn dod rhyngddynt. Mae cerddoriaeth yn donig i ni gyd – yn pontio ieithoedd a diwylliannau. Yn sicr mae 'na naws gydwladol arbennig i Ŵyl Llangollen bob blwyddyn. Ond beth amdanom ninnau fel unigolion am wythnos bob blwyddyn yn crwydro'r maes? Ydy neges sylfaenol yr ŵyl yn gwneud gwahaniaeth i ni? Os gwaraidd ydy cerddi'r ŵyl, beth amdanom ni? Ydy pawb yn un teulu? Ydyn ni'n ceisio gwneud ein byd ni'n wynfydedig?

Ar adeg dawel fe ddaw ambell ddelwedd anghydnaws â bwrlwm gŵyl o gerddoriaeth a dawns. Ond mewn bywyd cyffredin o ddydd i ddydd beth am y bobl rydan ni wedi'u brifo, pobl y gwnaethom ni gam â hwy? Beth am y bobl nad ydym yn siarad â hwy bellach am ddim rheswm yn y byd? Beth am y bobl mewn bywyd bob dydd, y bobl rydym wedi colli cysylltiad â hwy am ddim rheswm, y rhai a syrthiodd ar fin ffordd ein profiad? Beth am y rhai na chawsom gyfle i esbonio iddyn nhw pam y bu pethau fel a'r fel? Tybed ai gwaraidd ydy'n cerddi ni?

Fe fydda i wrth fy modd â dawns ac alaw werin, côr ac offerynwyr ac yn arbennig y perfformiadau answyddogol ar y maes ac yn y dref. Ond bob hyn a hyn fel rhyw ffantom i'r ffair fe ddaw'r 'lleill' hefyd i aflonyddu am ychydig – y rhai na fuom gysgod iddynt rhag eu nos. Y rhai nad ydym byth yn bwriadu dweud 'Croeso i'n cyfeillion' wrthynt. Ar faes cyfiawnder i bob gwlad a diwylliant, fe

*parhad ar y dudalen nesaf*

## Barn Annibynnol

# Hau had y deyrnas heddiw

Rwy'n paratoi'r geiriau hyn yn wythnos y Sioe yn Llanelwedd (byddaf yno, wrth gwrs, er mwyn gweld y ceffylau bendigedig fydd yn cael eu dangos!) Ond fe fyddwch chi yn eu darllen yn ystod wythnos Eisteddfod y Garreg Las. Meithrin y tir a meithrin diwylliant. Cynnal cyfeillgarwch a pherthyn.

Un Sul, roedd y darlleniadur yn awgrymu Dameg yr Heuwr o Mathew 13 i ni feddwl amdani. 'Ddim eto?' oedd fy ymateb cyntaf! Beth newydd sydd gen i i'w ddweud? Ond maes o law, sylweddolais fod y ddameg hon yn awgrymu rhywbeth y mae angen i ni fynd i'r afael ag e yn y byd anghyfartal heddiw.

### Y ddameg

Yn gyntaf, y ddameg neu'r stori ei hun. Roedd heuwr yn mynd allan i hau. Y peth cyfarwydd, bob dydd, yn cael y sylw canolog. A oes neges i ni yma, wrth i ni ystyried sut mae tystio i Iesu heddiw? Mae Iesu'n rhoi'r sylw ar y methiant, yn gyntaf, cyn troi at y llwyddiant. Dyma'r cwestiwn ar gyfer heddiw – pam fod methiannau cnydau sy'n achosi tlodi a diffyg maeth mewn cynifer o wledydd ar draws y byd yn digwydd a pha atebion ar siâp teyrnas Dduw allwn ni gynnig i'r heriau hyn? (Er fy mod i'n meddwl am y cyd-destun byd-eang, rwy'n ymwybodol bod problemau o fewn y diwydiant amaethyddol yng Nghymru hefyd, yn arbennig wedi'r gwres a'r sychder anhygoel yn ddiweddar. Sut all eglwysi Cymru sefyll wrth ochr byd amaeth yn y sefyllfa argyfyngus hon a rhoi gwerthoedd teyrnas Dduw ar waith?)

### Byd-eang

Mae newid hinsawdd yn golygu amrywiaethau mawr mewn amodau tywydd. Bydd yn gwaethygu yn y tymor hir gan arwain at dlodi a diffyg maeth dyfnach. Mae Affrica is-Sahara yn arbennig o agored i hyn ac yn dioddef fwyaf o effeithiau newid hinsawdd ar gynhyrchu bwyd ac felly ar dlodi a diffyg maeth.

Buom yn gwylio rhaglen Simon Reeves, 'The journey of tea', a ymddangosodd gyntaf yn 2014. Mae cwmnïau mawr, y mae tyfu te yn werth miliynau'r flwyddyn iddynt, yn cam-fanteisio ar eu gweithwyr – yn aml menywod a phlant mor ifanc â 11 oed, gan greu sefyllfa sy'n debyg i gaethwasiaeth. Mae'n cyfateb i'r hadau nad ydynt yn cael eu hau ar dir ffrwythlon… Mae Partneriaeth Masnach Te Teg a Moesegol yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn mewn ffyrdd y gallwn eu cefnogi a'u hannog.

Tua 20 mlynedd yn ôl, ymwelais â Sri Lanka dros Gymorth Cristnogol, a darganfod bod yna 104 o fathau o reis. Un agwedd o'r realiti yr oedd ffermwyr ar raddfa fach yn ei rannu â ni bryd hynny oedd eu bod yn cael eu hecsbloetio gan gwmnïau mawr a oedd yn gorfodi'r ffermwyr hyn i ddefnyddio hadau reis wedi'u haddasu'n enetig nad oeddent yn cynhyrchu hadau ffrwythlon. Felly yn lle cadw eu hadau eu hunain ar gyfer y tymor nesaf, roedd yn rhaid iddynt brynu gan y cwmnïau mawr am brisiau chwyddedig. Anghyfiawnder arall i heuwyr hadau ledled y byd sy'n dal i ddigwydd.



### Dameg gyfoes

Pe bai Iesu wedi bod yn ymwybodol o'r sefyllfaoedd hyn, sut byddai wedi adrodd y stori hon heddiw? Fel hyn?

> Edrychwch o'ch cwmpas, mae yna ffermwyr sy'n hau hadau ac yn ceisio tyfu eu cnydau ar gyfer eu teuluoedd. Ond nid oes glaw i ddyfrhau'r egin blanhigion newydd a daw'r gwres a'u dinistrio. Nid oes cynhaeaf ac nid oes gan eu teuluoedd unrhyw fwyd. Mae eu goroesiad dan fygythiad. Ond nid ydych chi'n gweld nac yn dioddef canlyniadau eu cyflwr. 'Os oes gennych glustiau i glywed, gwrandewch!'
>
> Edrychwch o'ch cwmpas, mae tyfwyr te ar raddfa fechan a phroseswyr bychain yn plannu planhigion te ond yn cael eu hecsbloetio. Mae menywod a phlant yn gorfod gweithio oriau hir am ychydig o incwm, ac weithiau'n cael eu gorfodi i mewn i'r diwydiant rhyw, er mwyn plesio cyflogwyr ac osgoi cosb. Ond rydych chi'n yfed eu te yn anymwybodol o'u dioddefaint. 'Os oes gennych glustiau i glywed, gwrandewch!'

Mae'n werth nodi, wrth gwrs, y byddai Iesu wedi bod yn ymwybodol hefyd o gamau bach sy'n cael eu cymryd ledled y byd – weithiau yn enw'r Deyrnas – i wrthsefyll yr anghyfiawnderau hyn: gweithio i gyfyngu ar effeithiau newid yn yr hinsawdd, annog pobl i brynu te masnach deg o ffynonellau moesegol, prynu reis sy'n rhoi cyfleoedd teg i ffermwyr reis ar raddfa fach i ddarparu incwm i'w teuluoedd a dyfodol i'w plant a'u cymunedau.

### Gweithredu

Gallwn, fel y byddwn yn aml, ymuno â'r gwaith hwn drwy Fasnach Deg a thrwy brynu bwydydd moesegol yn ein harchfarchnadoedd a'n stondinau. Ac mae'r rhain i gyd – boed yn fwriadol yn enw Iesu ai peidio – yn weithredoedd sy'n adlewyrchu bwriadau teyrnas Dduw ar waith, wedi'u grymuso gan yr Ysbryd. Am hyn oll, bydded i Dduw gael ei foli. Dyma ddwyn ffrwyth ar ei ganfed yn enw'r Deyrnas ac er lles y ddynolryw. Dyma newyddion da Efengyl Iesu sy'n newid bywydau a newid byd!

**Noel Davies**

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

# Gair gan Aled – parhad



ddaw'r rhain hefyd i fynnu ein hystyriaeth, dipyn yn nes adref, wedi i'r byd fynd adre o lan y Ddyfrdwy. Ydan ninnau'n medru maddau? Pa mor ddwfn ydy'n rhagfarnau a'n rhagdybiaethau ninnau? Ydan ninnau'n dal ein gafael ar hen chwerwedd a hen lid? Rhyw feddyliau fel hyn sy'n cyniwair rhwng dawns a chân ambell dro.

Bob blwyddyn mae Cyngerdd Heddwch Llangollen yn llonni fy nghalon, a'r flwyddyn hon o dan arweiniad Karl Jenkins. Mae'r wythnos yn ein hatgoffa o botensial cerddoriaeth i'n huno oll yng nghwlwm brawdgarwch a chwaeroliaeth. Bob blwyddyn rydym ninnau am amser byr yn gallu teimlo potensial byw mewn undod a chymod. Gallwn ymgolli ddigon i gredu fod Cariad yn rheoli'r byd. Gobeithio y bydd naws a hyfrydwch yr wythnos eleni yn parhau wedi'r ŵyl, ac mai gwaraidd fydd ein cerddi ninnau hefyd bob amser.

**Aled Lewis Evans**

(allan o Shalôm, Capel y Groes – Ebeneser, Wrecsam, Rhif 518 Gorffennaf ac Awst 2026)

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru


*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Lansio Goleuni

Ar ddydd Llun 3 Awst am 2pm ym Mhabell yr Eglwysi, Eisteddfod y Garreg Las, bydd Undeb yr Annibynwyr, yn lansio albwm newydd yn dwyn y teitl, *Goleuni,* sef casgliad o emynau newydd sbon. Mae'r rhain wedi eu cyfansoddi'n arbennig ar gyfer ein heglwysi gan Casi Jones, Emlyn Dole, Delwyn Siôn a Tudur Dylan Jones. Gosodwyd y geiriau ar alawon newydd gan y cerddor Christopher Davies, sydd hefyd yn gynhyrchydd ar y prosiect. Cydlynwyd y cyfan gan Rhodri Darcy, swyddog hyrwyddo a chyfathrebu'r Undeb ac maent wedi bod yn recordio yn stiwdio Myfyr Isaac ers dechrau'r flwyddyn. Yn ystod y lansio bydd Betsan Daniel (sy'n canu ar y fideo gyda Caryl Parry Jones) yn canu dwy gân, a chyfle i bawb lawrlwytho'r caneuon i'w ffonau symudol (does dim CD's erbyn hyn!).

Ariannir y prosiect hwn gan MSP4 y Cyngor Cenhadaeth Byd-eang (Council for World Mission). Nod y prosiect oedd cael talentau'r Annibynwyr, er enghraifft, Casi Jones, Delwyn Siôn a Tudur Dylan, i weithio gyda cherddorion proffesiynol gorau Cymru, er mwyn creu adnodd newydd a chyffrous i'n heglwysi. Mae nifer fawr o'n heglwysi erbyn hyn yn defnyddio sgrin deledu neu draciau cerddorol ar y Sul ar gyfer eu haddoliad. Felly mae cyfle gwirioneddol i'r caneuon newydd yma gael eu defnyddio. Gellir eu dysgu a'u canu fel cynulleidfaoedd gan y bydd traciau cyfeiliant ar gael yn fuan. Neu gellir gwrando a myfyrio ar yr emynau trwy gyfrwng Apple Music neu Spotify ac fe fydd fideos ohonynt ar gael maes o law hefyd.

Y mae rhagflas byr i'w weld trwy fynd i sianel Youtube yr Undeb.








Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

## MODIWL
## Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y Parchedig Carwyn Siddall ar y dyddiadau isod:

| | | |
|---|---|---|
| Nos Lun, 7 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 14 Medi | 7:30- 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 21 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 28 Medi | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Nos Lun, 5 Hydref | 7:30 - 9:00 | Zoom |
| Dydd Llun, 12 Hydref | 10:00 - 3:00 | Aberystwyth |

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn 'beth yw sacrament?', edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a'r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall: carwyn@annibynwyr.cymru

